OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 990 (Cy.139)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ar y Cyd) (Gwrth-hysbysiadau) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*2 Ebrill 2003*
Yn dod i rym - -	*10 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 99(6)(b) o Ddeddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(**1**), sydd bellach wedi eu breinio ynddo i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**) yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enw, cychwyn a chymhwyso

1. —Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Rhyddfreinio ar y Cyd) (Gwrth-hysbysiadau) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 10 Ebrill 2003.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 1993" ("*the 1993 Act*") yw Deddf Diwygio Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993;

mae i "y tir a'r adeiladau penodol" ("*the specified premises*") yr un ystyr ag sydd i'r ymadrodd "*the specified premises*" yn adran 13(12)(a) o Ddeddf 1993.

Cynnwys ychwanegol gwrth-hysbysiad ôl-feddiannydd

4. Rhaid i wrth-hysbysiad a roddir o dan adran 21 (Gwrth-hysbysiad ôl-feddiannydd) o Ddeddf 1993 gynnwys (yn ogystal â'r manylion sy'n ofynnol o dan yr adran honno) ddatganiad ynghylch a yw'r tir a'r adeiladau penodol o fewn ardal cynllun a gymeradwywyd fel cynllun rheoli ystâd o dan adran 70 o Ddeddf 1993.

(**1**) 1993 p.28.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).